



Y Bont

Cylchgrawn Eglwys Seilo Caernarfon

Mawrth 2015
Rhifyn 213

Oedfaon mis Mawrth

- 1 Mawrth: Bore - **Y Gweinidog**; Oedfa Dydd Gŵyl Dewi pryd y gweinyddir bedydd a chymun ac y derbynnir rhai o ieuenctid yr eglwys yn gyflawn aelodau. Bydd bwrdd gwerthu Masnach Deg yn y cyntedd.
Hwyr (4pm) - Uno yn **Salem**
- 8 Mawrth: Bore - **Mr Gwilym Williams**, Llangefni. Bydd bocs bwyd yn y cyntedd.
- 15 Mawrth: Bore a Hwyr: **Gweinidog**; bydd oedfa'r bore yn oedfa deulu ar thema Sul y Fam Yn ystod oedfa'r bore pleidleisir ar y priodoldeb o alw gweinidog newydd i Ofalaeth Seilo ac Eglwys y Waun. Bydd bocs bwyd yn y cyntedd.
- 22 Mawrth: Bore a Hwyr - **Y Parchg Trefor Lewis**
- 29 Mawrth: Bore a Hwyr: **Y Gweinidog**; bydd oedfa'r bore yn oedfa deulu **Sul y Blodau** a chaiff yr ysgol Sul gyfle i ddiolch i'r gweinidog am ei gwaith.
- 5 Ebrill: Bore: **Gweinidog** Yn ystod yr oedfa, bydd cyfle i werthfawrogi gwasanaeth y Parchedig Gwenda Richards ac i ddymuno'n dda iddi yn ei gofalaeth newydd. Ceir cyfle i gymdeithasu dros banded a chacen yn y theatr yn dilyn yr oedfa.
Hwyr (6pm) - uno yn **Llanbeblig**

Digwyddiadau Mis Mawrth

- Nos Lun 2 Mawrth (7pm) - **Y Gymdeithas Lenyddol**: Swper Gŵyl Ddewi efo Dilwyn Morgan
- Pnawn Mawrth 3 Mawrth yn Salem (2pm) - **Cyflwyniad gan y Parchg Casi Jones i'r cynllun 'Agor y Llyfr'** sy'n cyflwyno straeon y Beibl mewn ysgolion.
- Pnawn Gwener 6 Mawrth(2pm) yn Eglwys y Santes Fair - **Oedfa Weddi Byd-eang y chwiorydd**. Lluniwyd y gwasanaeth, a arweinir gan chwiorydd o eglwysi'r dref, gan ferched o'r Bahamas.
- Pnawn Llun 9 Mawrth (2.30pm) yn Salem - cyfarfod byr i drafod Wythnos Cymorth Cristnogol 2015 fydd yn canolbwyntio ar Ethiopia, ac i wrando ar Gwenno Rees yn sôn am ei phrofiad yn ymweld â phartneriaid Cymorth Cristnogol yno.
- Nos Lun 9 Mawrth (7pm) Cymdeithas Chwiorydd Seilo. Sgwrs gan Mrs Edwina Morgan ar y testun 'Crwydro'.
- Nos Iau 2 Ebrill (7pm) **Cymun nos Iau Cablyd** yn Noddfa.
- Dydd Gwener 3 Ebrill (10am) - **Oedfa gymun y Groglith yn Ebeneser** a gorymdaith i ddilyn.

Seiat yn Seilo - bob dydd Mercher am 10am

Y Gell Weddi bob dydd Iau am 10.30am

Taro Mewn yn Salem bob dydd Mawrth rhwng 10 ac 11am

PWDIN A PHANAD

Nos Fawrth 24 Mawrth (6.30—8.30pm)

Adloniant gan blant yr ysgol Sul /Pris tocyn: £3 (oedolion) / £1 (plant)

Yr elw at Eglwys Seilo a'r ysgol Sul

Am Eiliad

Pan oeddem yn teithio ar hyd glannau Gorllewinol Seland Newydd yn ddiweddar, gwelais yr arwydd hwn ar ymyl y ffordd: 'Around every corner of the West Coast there's a story to be told...' a dyna oedd yn wir, a dyna sy'n wir, nid yn unig yn Seland Newydd ond ym mhob gwlad. Mae hefyd yn wir amdanoch chi a finna, oherwydd mae gan bawb ei stori unigryw ei hun.

Gofiwch chi'r ffilm ymddangosodd yn 1965 yn dwyn y teitl 'The Greatest Story Ever Told?' Max Von Sydow oedd yn actio rhan Iesu Grist, Charlton Heston oedd Ioan Fedyddiwr, Telly Savalas oedd Peilat, John Wayne oedd y Canwriad a Pat Boone oedd yn actio rhan yr angel wrth y bedd! Dyna chi gast! Erbyn hyn mae hi'n ffilm sy'n ymddangos hyd at syrffed ar y teledu bob Nadolig a Phasg ac yn yr un categori â Ben Hur, Mary Poppins a'r Sound of Music. Ond beth bynnag am hynny, mae teitl y ffilm yn ystyrllon ac yn briodol iawn wrth i ni deithio tua'r Groglith a'r Pasg unwaith eto eleni. Y Stori Fwyaf a Glywyd Erioed.

Rhydd y Grawys gyfle i ni fyfyrion ar y stori, ac yn arbennig ar ei harwyddocad i'r credadyn. Mynd i'r anialwch ddaru Iesu Grist i fyfyrion ar natur ei weinidogaeth ac i geisio darganfod ewylllys ei Dad ar ei gyfer. Pan ddychwelodd oddi yno wedi goresgyn temtasiynnau'r diafol cawn hanes ei fedydd yn afon Iorrdonen a'i weinidogaeth yng Ngalaria a Jwdea.

Pan gyrhaeddodd Iesu Grist ddinas Jerwsalem ar gefn ebol asyn gwyddai y byddai ymhen ychydig iawn o amser yn eithriadol o unig.

Cysgodd ei ddisgyblion yn yr ardd, cafodd ei fradychu gan Jwdas a gwadodd Pedr ef. Cafodd ei gamgyhuddo gan y Sanhedrin a golchodd Peilat ei ddwylo ac osgoi ei gyfrifoldeb trwy ganiatáu rhyddhau Barabas yn hytrach na Iesu. Gwatwarwyd ef gan y milwyr a rhoddwyd clogyn ysgarlad amdano a choron ddrain ar ei ben. Ac ar Groes Calfaria ynganodd y geiriau: "Fy Nuw, fy Nuw, pam yr wyt wedi fy ngadael?" (Marc 15:34)

Ydi, mae hi'n stori enbyd. Ond i geisio'i deall rhaid codi uwchlaw'r stori i lefel ffydd, a sylweddoli bod Iesu Grist wedi profi unigrwydd dioddefaint i'r eithaf a hynny er mwyn uniaethu â'r profiad dynol ar ei waethaf. Yng nghrombil gwewyr gwaeledd, profedigaeth a helbulon mae Duw yn cydymdeimlo â ni trwy brofiad dirdynnol ei fab ar Galfaria.

Yng nghanol prysurdeb bywyd yr unfed ganrif ar hugain, onid un o'n hanghenion pennaf fel Cristnogion yw ymlonyddu ac ymdawelu a bod yn unig gyda Duw? Bod yn yr 'anialwch' heb yr allanolion sy'n gymaint o gysur i ni ar y daith. Be' di'r rheiny? Yn eu plith yn sicr y mae'r ffôn, yr iPad, y cyfrifiadur, y radio a'r teledu. Yn eu plith hefyd y mae teulu a ffrindiau a chymdeithas a holl gysuron ein byw moethus. Pa mor anodd fyddai byw am ddiwrnod heb y rhain?

Cawn yr emynwyr yn aml yn cyfeirio at 'yr enaid'. Onid yw'r enaid angen ein sylw ar adegau? I ganolbwysio ar yr enaid rhaid ymwadu â'r allanolion a sefyll yn noeth gerbron Duw. Fedrwn ni neud hynny yn ystod y Grawys eleni? Byddai hynny'n sicr yn llesol i ni i gyd, petai ond am gyfnod byr. Meddai Thomas William:

F'enaid, gwêl i Gethsemane,
edrych ar dy Brynwr mawr
yn yr ing a'r ymdrech meddwl,
chwys a gwaed yn llifo i lawr.
Dyma'r cariad mwyaf rhyfedd,
mwyaf rhyfedd fu erioed!

Gwenda Richards

Coffâd

Y Parchedig Iorwerth Jones Owen, Llys yr Awel, Lôn Ysgubor Wen

Hanai y Parchedig Iorwerth Jones Owen o Abererch ger Pwllheli. Wedi gadael yr ysgol bu'n gweithio ar 'y lein' yn Nhalsarnau, Afonwen, Penrhyndeudraeth a Phwllheli. Meddai yn ei ragymadrodd i'w gyfrol 'Codi Stêm', sef llyfr yn cofnodi hanes Lein y Cambrian o Fachynlleth i Lŷn, "Rhaid i mi gyfaddef fod y lein yn fy ngwaed o hyd, fel môr yng ngwaed y llongwr." Fe'i magwyd yn eglwyswr ond dan ddylanwad y Parchedig D.Terry Thomas cafodd ei ddenu at anghydfurfiaeth a bu'n weinidog ym Mhenbedw,

Blaenau Ffestiniog a Phorthmadog. Roedd yn ŵr amryddawn a chanddo nifer o ddiddordebau. Roedd yn ddynewaredwr heb ei ail ac yn sgwrsiwr brwd. Yn bennaf oll cofir amdano fel pregethwr grymus a phoblogaidd a fu'n pregethu mewn Sasiynnau a Chyfarfodydd Pregethu led-led Cymru. Cysegrodd ei fywyd i waith y Deyrnas gan ystyried bugeilio a phregethu'r Gair yn fraint ac yn anrhydedd. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'i briod, Helena, a'r teulu oll.

John Richards, Nant y Nodyn, Bontnewydd
Er mai yn Nolgellau y ganed John Richards treuliodd ei blentyndod a'i lencyndod yn y Bermo. Gadawodd yr ysgol a derbyn hyfforddiant fel athro yn y Coleg Normal a Choleg Cyncoed cyn derbyn swydd fel athro addysg gorfforol yn Ysgol Ramadeg Caernarfon, fel roedd y pryd hwnnw. Bu yno am 33 mlynedd yn uchel iawn ei barch ymhlith ei gyd-athrawon a'r disgyblion. Roedd yn ŵr addfwyn a charedig ac yn ei elfen yng nghwmni ei wyrion a'i wyresau. Roedd hefyd yn ŵr dawnus a chanddo nifer o ddiddordebau. Bu'n aelod ffyddlon o Gôr Meibion Caernarfon a bu'n flaenllaw yng nghymdeithas y Ford Gron. Bu'n flaenor diwyd yn Seilo gan ymroi i waith gyda'r ieuenctid a chynorthwyo ym mhob agwedd o waith yr eglwys. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Mona, Rona, Bethan, Helen, a'r teulu oll.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â **Mr Elfed Hughes**, 6 Gerddi Menai, sydd wedi colli ei chwaer yn ddiweddar, ac â **Mr Owen F Williams**, 47 Stryd Victoria, yntau hefyd wedi colli ei chwaer. Collodd **Mrs Eirlys Wyn Hughes**, Crud-y-Nant, Bethesda Bach, ei mam yn ystod yr wythnosau diwethaf, a chydymdeimlwn yn ddiffuant â hithau.

Dymunwn nerth Duw i'r teuluoedd oll yn eu hiraeth am anwyliaid.

Gwaeledd

Treuliodd **Mrs Jennie Hewitt**, 8 Ala Las, gyfnod yn Ysbyty Eryri, ond da yw deall ei bod gartref erbyn hyn. Bu **Mr Elwyn Robinson**, Yr Unicorn, Pengelli Wyn yn Ysbyty Gwynedd, fel y bu **Mrs Helen Griffith**, 72

Cae Mur, **Mr Hywel Jones**, Porth y Wawr, Llys Gwyn, a **Mr David Elwyn Williams**, 7 Ala Las. Anfonwn ein cofion cynhesaf at **Mr Fred Parry**, Seibiant, Lôn Ddewi, yn dilyn ei ddamwain yn ddiweddar. Mae **Mrs Phylis Williams**, Y Fedwen, Ffrwd Cae Du, yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd a **Miss Gwyneth Edwards**, Arosfa, Pengelli Wyn yn Ysbyty Eryri. Dymunwn wellhâd buan i bob un ohonynt.

Bedydd

Ar fore Sul cynta'r flwyddyn, 4 Ionawr, cafodd **Marged Arenig**, merch fach Guto Pryderi a Nia Llewelyn Puw, 6 Ffordd Menai, ei bedyddio gan y Parchedig Gwenda Richards. Mae Marged yn chwaer i Martha a Cadi. Llongyfarchwn y teulu a dymuno bendith ar eu haelwyd.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau calonnog i **Dr Guto Pryderi Puw**, 6 Ffordd Menai, ar dderbyn Gwobr Syr Geraint Evans Cymdeithas Gerddoriaeth Cymru yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Cyflwynwyd y wobwr i Guto i gydnabod ei gyfraniad i gerddoriaeth yng Nghymru fel cyfansoddwr, darlithydd a Chyfarwyddwr Artistig Gŵyl Gerdd Newydd Bangor. Rydym yn cydlawenhau ag ef yn ei lwyddiant.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i **Mrs Mair Jones**, Hendy, ar ddatlu ei phenblwydd yn 90 yn ddiweddar. Hyderwn iddi gael diwrnod wrth ei bodd.

Dathlu Penblwydd

Ar 17 Mawrth bydd y Parchedig Trefor Jones yn dathlu penblwydd arbennig. Cewch ddyfalu ei oed! Pob dymuniad da iddo ar y diwrnod mawr.

Diolch

Dymuna Mrs Gwenda Williams, 1 Bryn Rhos, Rhosbodrual, ddiolch yn gynnes iawn am yr holl alwadau ffôn, ymweliadau, rhodion a blodau ac hefyd am gefnogaeth y Gweinodog a'r Parchedig Dafydd Lloyd Hughes yn ystod y cyfnod y bu yn yr ysbyty ac wedi iddi ddod adre. Mae'n falch iawn o ddweud ei bod yn llawer gwell erbyn hyn. Diolch yn fawr.

Blodau'r Cysegr

Dyma'r rhai fydd yn gyfrifol am y blodau yn Seilo yn ystod mis Mawrth: **Mrs Rhianwen Roberts** (1); **Mrs Sioned Clwyd Jones**(8); **Mrs Ceri Humphreys** (15); **Mrs Marian Wyn Jones** (22); **Mrs Kitty Roberts** (29)

Y Gymdeithas Lenyddol

BRETHYN CARTREF

Brethyn Cartref gawsom i'n cadw'n gynnes a chartrefol ar noson aeafol yn Ionawr yng nghwmni Mr Iolo Thomas, Dr Huw Roberts a Dr Gwyn Lewis. Y thema, ar ffurf lluniau trawiadol dynwyd gan y tri siaradwr, oedd 'Ddoe, Heddiw ac Yfory.'

Dangosodd Iolo luniau Gwlad yr Iâ ac egluro fel roedd modd gwneud defnydd o ynni'r gwres tan-ddaeorol i gynhesu'r lonydd rhag i'r eira sefyll ac i gyflenwi dŵr poeth yn y cartrefi. Yna fe'n tywysodd i Vesuvius ac i Pompeii yn yr Eidal a gwelsom y dinistr a'r trysorau.

Fe'n tywyswyd i Foelfre ei fagwraeth gan Dr Huw a dangosodd luniau o fywyd mewn pentref glan y môr yn 1920au. Yn 1900 âi 8 o bob 10 o hogia'r pentra i'r môr, a daeth llawer ohonynt yn gapteiniaid, yn eu plith ei dad a'i daid. Roedd yn ddiddorol gwrando arno'n cyfeirio at rai o brofiadau ei daid ar longau hwylio cyn bod yn gapten ar stemar bwerus. Bu bron iddo golli ei fywyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf pan suddwyd ei long, ond llwyddodd i nofio i'r lan.

Y dyfodol ar ôl ymddeol oedd gan Gwyn. Cafodd wahoddiad i America i ddarlithio yn Salt Lake City ar addysg ddwyieithog. Yn dilyn yr orchwyl honno cafodd Gwyn ac Alwena gyfle i deithio yn helaeth o gwmpas y wlad. Cawsom ninnau fwynhau gweld Tabernacl y Mormoniaid, Alcatraz, San Fransisco, Cambria lle'r ymfudodd llawer o Gymru, Las Vegas a Hollywood o'n seddau yn Theatr Seilo.

AWEN LAWEN

Cawsom noson arall fyrlymus gan y Prifardd Meirion MacIntyre Hughes, am hiwmor mewn englynion a limrigau, a rhyfeddwyd at ei ddawn yn eu hadrodd ar ei gof. Gosododd

dasg i ni i orffen limrig a ddenodd tua deugain o ymdrechion a'r bardd buddugol oedd Gwyn Lewis.

Edrychwn ymlaen at ein cinio Gŵyl Ddewi yn y Clwb Golff nos Lun 2il o Fawrth gyda'r gŵr gwâdd Dilwyn Morgan. Cofiwch hefyd y bydd taith fws i Ynys Môn yng nghwmni Mr Geraint Percy Jones ar Fai 18

Margaret Wyn Roberts

Cymdeithas y Chwiorydd

Nos Lun, 12fed Ionawr daeth nifer dda ynghyd i fwynhau oedfa flwyddyn newydd dan arweiniad y Parchedig Eric Jones, Bangor. Roedd ei neges yn amserol a pherthnasol. Llywydd y noson oedd Mrs Nan Parry, a hi gymerodd y rhannau dechreuol. Diolchodd i'r cennad, i'r cyfeilydd Mrs Alwena Lewis, ac i'r chwiorydd a fu'n gyfrifol am y baned.

Nos Lun 9fed o Chwefror cyfarfu'r Gymdeithas dan lywyddiaeth Mrs Ceri Williams i fwynhau sgwrs gan John Grisdale ar waith Tîm Achub Mynydd Llanberis. Ei destun oedd 'Taith Drwy Eryri', a chyfeiriodd at y tîm o 60 o wirfoddolwyr sy'n rhan o'r gwasanaeth angenrheidiol hwn. Pwysleisiodd bwysigrwydd y cŵn ynghyd â hofrennyddion y Fali yn y broses o chwilio. Pwysleisiodd hefyd yr angen am ymarfer cyson er mwyn adnabod y creigiau ac er mwyn cadw'r corff yn ystwyth gan i'r gwaith fod yn drwm a blinedig. Dangosodd sleidiau o aelodau'r tîm wrth eu gwaith yn achub a chyn cloi cafwyd cyfres o luniau yn dangos golygfeydd ysblynydd o dirlun a gogoniannau Eryri. Diolchodd y Llywydd iddo am noson hynod o ddiddorol a chyflwyno rhodd fach tuag at waith Tîm Achub Mynydd Llanberis.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 9fed o Fawrth pryd bydd Mrs Edwina Morgan yn siarad ar y testun 'Crwydro'. Bydd cyfle ar y noson i gasglu enwau ar gyfer y cinio blynyddol.

Gweinidog: Parchg Gwenda Richards 676435

Golygydd: Mrs Angharad Rhys Williams 674865